## Why bring back the pine marten?

Boosting the number of pine martens will enrich our woodland communities and help restore a balanced ecosystem. Research from Ireland has shown that where pine martens are spreading, grey squirrels have declined and, as a result, red squirrels have returned. Accounts from woodland managers in Scotland back-up this observation. This is good news for both woodland owners and red squirrels.

In Scotland, there has been a surge in interest from visitors wanting to see pine martens. This is bringing in additional income to visitor centres offering viewing hides, as well as to local hotels and B&Bs. There could be the same opportunity in Wales.

## *Pam dod â belaod coed yn ôl?*

*Bydd cynyddu niferoedd belaod coed yn cyfoethogi bywyd gwyllt ein coedwigoedd ac yn helpu creu gwell cydbwysedd o fewn ecosystemau naturiol. Mae ymchwil yn yr Alban wedi dangos bod niferoedd gwiwerod llwyd yn lleihau mewn ardaloedd lle mae belaod coed yn lledu, ac mae gwiwerod coch yn dychwelyd oherwydd hyn. Mae arsylwadau gan reolwyr coedwigoedd yn yr Alban yn cadarnhau hyn. Dyma newyddion da, yn sicr, i berchnogion coedwigoedd ac i wiwerod coch.*

*Yn yr Alban mae ymwelwyr yn frwd i weld belaod coed. Mae hyn yn dod ag incwm ychwanegol i ganolfannau ymwelwyr sy'n cynnig cuddfannau ar gyfer arsylwi, ac i westai a busnesau gwely a brecwast lleol. Gallai'r un cyfleoedd godi yng Nghymru.*



## How can you help?

Now is a critical time for the pine marten in Wales. This project represents a chance for community members to help ensure that this iconic species will once again be a symbol of our Welsh woodlands.

Find out how you can help by visiting **www.pine-marten-recovery-project.org.uk**, or using the contact details below.

## *Sut gallwch chi helpu?*

*Mae hi'n adeg dyngedfennol i felaod coed yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd i aelodau o'n cymunedau weithio ar brosiect cynhyrfus a fydd yn sicrhau y bydd y rhywogaeth arbennig hon unwaith eto'n symbol o'n coedwigoedd Cymreig.*

*Os am wybod mwy am y ffyrdd y gallwch chi helpu ewch i wefan* **www.pine-marten-recovery-project.org.uk**, *neu defnyddiwch y manylion isod.*

## The Vincent Wildlife Trust

The VWT is a mammal conservation charity that has spent 40 years carrying out research and practical conservation. The Trust has staff based in Wales, England and Ireland.

*Mae'r VWT yn elusen sy'n gwarchod mamaliaid ac mae wedi treulio 40 mlynedd yn cynnal ymchwil a gwaith cadwraeth ymarferol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth staff yng Nghymru, Lloegr a'r Iwerddon.*

The Vincent Wildlife Trust, 3 & 4 Bronsil Courtyard,
Eastnor, Ledbury HR8 1EP
www.vwt.org.uk | enquiries@vwt.org.uk | 01531 636441

Charitable Company Limited by Guarantee Registered in England No. 05598716
Registered Charity No. 1112100 (England), SCO43066 (Scotland), DCHY00019 (Ireland)
*Cwmni Elusennol Cyfyngedig drwy Warant Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif. 05598716 Elusen Cofrestredig Rhif. 1112100 (Lloegr), SCO43066 (Yr Alban), DCHYOO019 (Yr Iwerddon)*

**Pine marten photos:** A. Achterberg | ***Lluniau bele'r coed:*** *A.Achterberg*

Vincent Wildlife
Pine Marten Recovery Project
Prosiect Adfer Bele'r Coed

# Pine Marten Recovery Project
# *Prosiect Adfer Bele'r Coed*



Helping to secure the survival of the pine marten in Wales
*Helpu diogelu dyfodol bele'r coed yng Nghymru*

people's trust for endangered species — Bringing the wild back to life | Chester Zoo | Woodland Trust | Wildlife Vets International

Charismatic, elusive and running out of time, this native Welsh mammal has all but disappeared from the rural Welsh landscape.

*Mae'r creadur brodrol Cymreig hwn yn un cyfrin, llawn cymeriad. Yn anffodus mae bron â diflannu'n llwyr o'n cefn gwlad.*



## A woodland mammal

The pine marten is chiefly a woodland animal, using tree cavities as breeding and resting sites. Its preferred diet is small mammals and fruit. Martens have large territories, lead solitary lives and therefore live at very low densities.

## *Mamal y goedwig*

*Anifail y goedwig, yn bennaf, yw bele'r coed. Mae'n defnyddio tyllau mewn coed ar gyfer gorffwyso a magu. Ei hoff fwyd yw mamaliaid bychain a ffrwythau. Mae gan felaod coed diriogaethau mawr ac maen nhw'n byw fel unigolion yn hytrach nag mewn grwpiau cymdeithasol - felly mae dwysedd eu poblogaeth yn isel iawn.*

## Where have they gone?

In Britain, the pine marten's historical decline was in step with forest clearance, together with the 19th century rise in game shooting and associated predator control. By 1900, the marten was confined to the more remote uplands of Britain, including Snowdonia and the Cambrian Mountains. Today, the marten is doing well in Scotland, but in Wales and England this recovery has not taken place and the population is unlikely to survive without intervention.

## *I ble'r aeth ein belaod coed?*

*Mi wnaeth belaod coed brinhau ym Mhrydain wrth i fforestydd gael eu clirio, ac wrth i'r arfer o saethu gêm a rheoli creaduriaid ysglyfaethus gynyddu yn ystod y 19eg Ganrif. Erbyn 1900 roedd belaod coed ond i'w canfod ar ucheldiroedd mwy pellennig Prydain, yn cynnwys Eryri a chanolbarth Cymru. Y dyddiau hyn mae'r bele'n ffynnu yn yr Alban ond nid yw'r niferoedd wedi cynyddu yng Nghymru a Lloegr. Yn y gwledydd hyn nid yw'r boblogaeth yn debygol o oroesi heb rhyw fath o ymyrraeth.*





## The Pine Marten Recovery Project

The Vincent Wildlife Trust (VWT), with its 30-year history of pine marten research, is currently boosting Wales' struggling marten population. Following an extensive feasibility study and consultation with local landowners and communities, 20 pine martens were caught in Scotland and released into an area of mid-Wales in autumn 2015. Their movements are now being carefully monitored in order to see how they fare, where they set up territories and whether they breed. More pine martens will be released in 2016.

## *Prosiect Adfer Bele'r Coed*

*Mae'r Vincent Wildlife Trust (VWT), gyda'i hanes hir o gynnal ymchwil ar felaod coed dros y 30 mlynedd ddiwethaf, wrthi'n rhoi hwb i'r boblogaeth dila o felaod coed yng Nghymru. Ar ôl cwblhau astudiaeth dichonoldeb ac ymgynghori gyda pherchnogion tir a chymunedau lleol tros gyfnod hir fe ddaliwyd 20 bele yn yr Alban yn ystod hydref 2015 a'u gollwng yn syth mewn un ardal yng nghanolbarth Cymru. Mae symudiadau'r belaod wrthi'n cael eu monitro'n ofalus er mwyn dysgu mwy am eu hynt a'u helynt, ac am leoliad eu tiriogaethau - a hefyd i ddarganfod a ydyn nhw'n bridio'n llwyddiannus. Bydd rhagor o felaod coed yn cael eu gollwng yn ystod 2016.*